**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, MALDWYN 2024**

Cystadleuaeth 133 – Grŵp Llefaru Bl. 10 a dan 19 oed

## Dawns Amser, Gwynn ap Gwilym

'Pa bryd y bu Cymru?' A fu hi erioed?
Dyna'r cwestiwn sy'n seinio drwy'r bryniau a'i choed.
Sawl gwaith yn ei hanes y troes fflam y wawr
yn fellten a fwriai holl Gymru i'r llawr?

*Ond fe'i ganwyd hi droeon o'r newydd. Mae'n rhaid*
*bod ei hen gyfaill, Amser, yn dawnsio o'i phlaid.*

Fe lofruddiwyd Llywelyn, a gosod ei ben
uwch waliau Tŵr Llundain, mewn dirmyg a sen,
ond fe ddawnsiodd Glyndŵr i unioni ei cham,
a daeth gwŷr y Dadeni i gynnal y fflam.

*Ond fe'i ganwyd hi droeon o'r newydd. Mae'n rhaid*
*bod ei hen gyfaill, Amser, yn dawnsio o'i phlaid.*

Fe fu'n brwydro am addysg, a brwydro am waith,
a bu tân ym Mhenyberth, a brwydro dros iaith.
Fe barhaodd y ddawns drwy'r canrifoedd di-ri
nes trosglwyddo cnewyllyn o Gymru i ni.

Fe ddawnsiodd ein tadau yn ffyddiog yn llaw
eu hen gyfaill. Amser, er pob siom a braw.
Boed i ninnau gyd-ddawnsio ag Amser o hyd,
nes bod Cymru yn para hyd ddiwedd y byd.

*Ac fe'i genir hi eto ac eto, o raid.*
*Bydd ei hen gyfaill, Amser, yn dawnsio o'i phlaid.*